PREIFAT A CHYFRINACHOL

**Cyfarfod Arbennig o Fwrdd S4C**
Cyfarfod a gynhaliwyd dros Zoom

09.30, 14 Rhagfyr 2022

---

**Cofnodion**

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | RhW | (Cadeirydd y Bwrdd) |
| Guto Bebb | GB | (Aelod Anweithredol) |
| Suzy Davies | SuD | (Aelod Anweithredol) |
| Adele Gritten | AdG | (Aelod Anweithredol) |
| Chris Jones | CJ | (Aelod Anweithredol) |
| Denise Lewis Poulton | DLP | (Aelod Anweithredol) |
| Siân Doyle | SD | (Prif Weithredwr) |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | (Prif Swyddog Cynnwys) |
| Elin Morris | EM | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Geraint Evans | GE | (Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi) |
| Geraint Pugh | GP | (Ysgrifennydd Bwrdd S4C) |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Honiadau ynglŷn â gweithredu polisi caffael S4C**<br><br>Adroddodd RhW iddo dderbyn galwad ffôn gan y DCMS i'w hysbysu iddynt dderbyn copi o lythyr agored gan gyn Gyfarwyddwr Cyfathrebu Corfforaethol S4C i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn honni nad yw S4C wedi bod yn cydymffurfio â'i bolisi caffael. Roedd RhW wedi rhannu copi o'r llythyr gydag aelodau'r Bwrdd cyn y cyfarfod.<br><br>Yn ogystal â'r llythyr agored, roedd y cyn aelod staff hefyd wedi rhyddhau datganiad i'r wasg o dan embargo tan 15:00 y prynhawn hwnnw.<br><br>Amlinellodd SD statws y berthynas rhwng S4C a'r pedwar cwmni a grybwyllir yn y llythyr agored. Pwysleisiwyd nad oes gan S4C berthynas gydag un o'r cwmnïau a enwir. Fodd bynnag, roedd S4C wedi hysbysu'r cwmnïoedd o'r hyn a honnir.<br><br>Roedd y Tîm Rheoli wedi trafod, ac yn ffyddiog bod y cytundebau yn cydymffurfio gyda pholisi caffael S4C. Ymhellach, pwysleisiwyd nad yw'r polisi wedi ei ddiwygio yn ddiweddar, ac nad yw'r ffordd mae S4C yn delio gyda chaffael wedi newid.<br><br>Roedd llythyr y cyn aelod staff hefyd yn cwestiynu a ddylai S4C fod wedi dilyn y polisi caffael mewn perthynas â gwariant Cyngerdd Cymru i'r Byd – a gynhaliwyd yn Efrog Newydd fis diwethaf ac a ddarlledwyd ar S4C wedi hynny. Nodwyd bod cynnwys i'w ddarlledu wedi ei eithrio yn unol â'r rheoliadau caffael cyhoeddus perthnasol, ac nad yw polisi caffael S4C felly'n berthnasol.<br><br>Trafodwyd sut y dylai'r Bwrdd ymateb i'r honiadau.<br><br>Nodwyd mai at yr NAO y cyfeiriwyd y llythyr agored, ac mai ond trwy'r DCMS y daeth S4C yn ymwybodol ohono. Pe byddai'r cyn aelod staff wedi codi'r honiadau gydag S4C yn unol â'r polisi perthnasol ar chwythu'r chwiban, byddai ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal. Teimlai RhW y byddai'n briodol i'r Bwrdd gomisiynu ymchwiliad o'r fath – trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg – gan holi'r archwilwyr mewnol i ymgymryd â'r gwaith.<br><br>Trafodwyd hefyd sut ddylai S4C ymateb yn gyhoeddus i'r honiadau, a sut i gyfleu ymateb y Bwrdd i'r honiadau i'r staff. Awgrymwyd y dylid cadw ein hymateb yn syml. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod yr unigolyn yn ei lythyr agored wedi awgrymu y dylai'r NAO holi SD i gamu o'r neilltu fel Prif Weithredwr S4C yn ystod unrhyw ymchwiliad. Roedd y Bwrdd yn unfrydol na fyddai hyn yn gam priodol yng ngoleuni'r honiadau, ac nid oedd disgwyl i'r NAO wneud cais o'r fath. | |
| | **Penderfyniad: Bod CJ a GP yn cysylltu gyda'r NAO i drafod sut mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r llythyr agored.** | CJ / GP |
| | **Penderfyniad: Bod CJ a GP, ar ran y Pwyllgor Archwilio a Risg, yn comisiynu'r archwiliwr mewnol i gynnal adolygiad o'r hyn a honnir yn y llythyr agored; gydag adroddiad ar y canfyddiadau cyn gynted â phosib i aelodau'r Pwyllgor.** | CJ / GP |
| | **Penderfyniad: Bod ymateb drafft i'r cyfryngau yn cael ei baratoi, i'w ddefnyddio os daw cais am sylw gan S4C. Byddai cynnwys yr ymateb drafft hefyd yn cynnig sail ar gyfer hysbysu staff o'r honiadau mewn cyfarfod i'w gynnal y prynhawn hwnnw.** | RhW |